

Cynllun Gwers

Blwyddyn: 9	Maes Dysgu a Phrofiad: Dyniaethau.	Nod y wers: I baratoi ac ysgifennu taflen wybodaeth am fywyd yng Nghymru yn ystod yr oes Rufeinig.
Gwybodaeth flaenorol: Beth yw ymerodraeth? Beth yw pwrpas taflen wybodaeth? Beth yw berfau gorffennol? Beth yw ansoddair?	Geirfa allweddol: • Ymerodraeth. • Ymerawdwr. Goresgyn. • Rhufeiniaid. • Amffitheatr. • Brwydr.	Gweithgareddau: • Bydd angen i'r disgyblion ysgrifennu brawddegau i egluro beth yw ystyr y termau ymerodraeth ac ymerawdwr.
Adnoddau: • Bydd angen cynnwys llun o amffitheatr ar y pŵer bwynt fel sbardun i annog y disgyblion i drafod beth ydyn nhw'n meddwl oedd yn digwydd mewn amffitheatr yn y cyfnod. • 10 dis ar gyfer mwyn i'r disgyblion ei rolïo'r mewn grwpiau a chreu brawddegau yn defnyddio'r berfau gorffennol. • Selid ar y pŵer bwynt sy'n cysylltu rhifau'r dis gyda berfenwau. • Paragraff sy'n trafod y Rhufeiniaid yng Nghymru er mwyn i'r disgyblion tanlinellu'r berfau gorffennol ac ansoddeiriau sy'n ymddangos ynddi. • Taflen cymorth i helpu'r disgyblion creu eu taflennu gwybodaeth. Mae'r daflen yn cynnwys enghraifft o ferfau'r gorffennol, ansoddeiriau gellid cynnwys ac esboniad o dermau allweddol.	Ffocws iaith: • Dysgu termau newydd • Sicrhau defnydd cywir o amser y gorffennol • Adolygu beth yw ansoddeiriau	• Tasg meddwl paru rhannu lle bydd angen i'r disgyblion trafod beth maen nhw'n credu oedd yn digwydd mewn amffitheatr yng nghyfnod y Rhufeiniaid. • Drilio amser y gorffennol fel dosbarth. Bydd berfau yn cael eu rhoi ar y bwrdd gwyn i'r disgyblion droi mewn i'r ffurf orffennol. • Tasg dis lle bydd angen i'r disgyblion rolïo dis a chreu brawddegau yn defnyddio'r berfau gorffennol yn gywir • Tasg tanlinellu – bydd angen i'r disgyblion ddarllen paragraff am y Rhufeiniaid a thanlinelli'r berfau gorffennol ac ansoddeiriau sy'n ymddangos ynddi. • Trafodaeth dosbarth – beth yw nodweddion gweledol taflen wybodaeth • Tasg unigol sef i greu taflen wybodaeth i addysgu disgyblion blwyddyn 9 am fywyd a chymdeithas yng Nghymru yn ystod yr Oes Rufeinig.



Dyma'r pŵer bwynt defnyddiais ar gyfer y
wers

Bywyd a chymdeithas yn ystod yr oes
Rufeinig yng Nghymru



Tasg Tanio

Beth yw ystyr y termau canlyol:



ymerodraeth



ymeradwdwr



Ymerodraeth

Grŵp o wledydd sydd yn cael
ei rheoli gan un person neu
lywodraeth

Ymerawdwr


Y person sy'n rheoli'r
ymerodraeth

- 






Llyfrgelloedd
cyhoeddus



Heolydd




Baddonau Rhufeinig



Iaith Lladin



Adeiladau



Technoleg

Trafodwch: Beth ydych chi'n meddwl oedd yn digwydd mewn amffitheatr yn ystod y cyfnod?



Brwydrau Gladiator



Helfeydd Anifeiliaid Gwyllt



Brwydrau Llynges



Dienyddiadau Cyhoeddus



Tasg creu taflen wybodaeth i addysgu disgyblion blwyddyn 9 am fywyd yn oes y Rhufeiniaid yng Nghymru

Diwylliant a Chymdeithas Rufeinig yng Nghymru

Goresgyniad y Rhufeiniaid

Goresgynnodd y Rhufeiniaid Brydain am y tro cyntaf yn 43 OC o dan arweiniad yr Ymerawdwr Claudius. Wedi hyn, llwyddon nhw i goncro ardaloedd eraill, gan gynnwys Cymru. Gwynebodd y Rhufeiniaid gwrthwynebiad cryf yng Nghymru, yn enwedig wrth y llwythau Celtaidd. Diwydiant

Diwydiant

Roedd Cymru'n gyfoethog mewn adnoddau naturiol, ac roedd y Rhufeiniaid yn gyflym i'w defnyddio. Roedd gan y Rhufeiniaid ddiddordeb arbennig mewn aur. Roedd mwynloddiau aur (gold mines) yng Nghaerfyrddin, ac roedd pobl yn gweithio'n galed i ddod o hyd i'r aur. Roedd y Rhufeiniaid hefyd yn cloddio arian, haearn, a chopr, a ddefnyddiwyd i wneud darnau arian, arfau ac offer.

Bywyd Dyddiol a Chymdeithas

Cyflwynodd y Rhufeiniaid eu diwylliant i Gymru. Daethant â'u hiaith (Lladin), adeiladau, a ffordd o fyw. Roedd tai Rhufeinig yng Nghymru yn aml yn adeiladau carreg fawr gyda chyrtiau canolog a gwres dan y llawr (underfloor heating). Roedd trefi Rhufeinig wedi'u cynllunio'n dda, gyda ffyrdd syth, baddonau cyhoeddus (public baths) a siopau. Yn yr amffitheatrau, byddai gladiatoriaid, yn ymladd i farwolaeth. Yn ogystal, roedd anifeiliaid egsotig fel llewod a theigrod yn cael eu cludo i'r arena i gael eu hela neu ymladd yn erbyn y gladiatoriaid.

Roedd dillad yn rhan bwysig o ddiwylliant Rhufeinig. Roedd dillad lliw coch, porffor, a gwyn yn boblogaidd. Roedd dynion a merched yn gwisgo gemwaith Rhufeinig, ac roedden nhw'n gwneud eitemau fel mwclis, breichledau, tlysau, a modrwyau allan o ddeunyddiau fel aur, arian, efydd a gemau. Roedd gan y Rhufeiniaid grefydd aml-dduwiol sy'n golygu eu bod yn credu mewn llawer o Dduwiau a Duwiesau. Roedd y Rhufeiniaid hefyd yn credu mewn ysbrydion.

Defnyddiwch y darn darllen yma i'ch helpu

Pa un sy'n gywir?

Mae y Rhufeiniaid yn

Roedd y Rhufeiniaid wedi

Trowch y berfau canlynol i'r gorffennol

a
i
u
o
ed
eg

Angen dileu'r
llythyren olaf + **odd**

adeiladu > adeilad**odd** y Rhufeiniaid

codi > y Rhufeiniaid

teithio > y Rhufeiniaid

siarad > y Rhufeiniaid

gwisgo > y Rhufeiniaid

chwarae > y Rhufeiniaid

ymlacio > y Rhufeiniaid

a
i
u
o
ed
eg

Angen dileu'r
llythyren olaf + **on**

adeiladu > Adeiladon nhw

codi > nhw

teithio > nhw

siarad > nhw

gwisgo > nhw

chwarae > nhw

ymlacio > nhw

Tasg dis - Tasg creu brawddegau yn defnyddio berfau'r gorffennol

1. Adeiladu – Adeilodd y Rhufeniaid ffyrdd syth **neu**
Adeiladon nhw ffyrdd syth
2. Siarad –
3. Gwisgo –
4. Teithio-
- 5- Ymladd –
- 6 – Chwarae -

Beth yw ansoddair?

Geiriau disgrifio yw
ansoddeiriau. Mae
ansoddeiriau fel arfer yn
dilyn enw.

Sawl berf orffennol ac ansoddair
gallwch chi weld yn y paragraff yma?

Adeiladodd y Rhufeiniad llyfrgelloedd mawr a oedd yn dal llyfrau amrywiol. Roedd amffitheatrau hefyd yn bwysig i'r Rhufeiniaid. Gwyliodd y Rhufeiniad sioeau a brwydrau gladiatoriaid yn yr adeiladau enfawr a chrand yma. Gwisgodd y Rhufeiniaid cyfoethog gemwaith drud oedd yn dangos eu statws cymdeithasol. Yn ogystal, adeiladodd y Rhufeiniaid y ffyrdd cryf, a oedd yn cysylltu'r holl Ymerodraeth.



Beth ydych chi'n credu sydd angen cynnwys ar daflen wybodaeth?

- Teitl addas
- Cynnwys paragraffau ac isbenawdau
- Pwyntiau bwled
- Ffeithiau addas a gwybodaeth berthnasol
- Ystadegau/dyddiadau
- Llun addas

Dyma'r taflennu gwaith gwnes i baratoi i'r disgyblion

1- Paragraff sy'n trafod y Rhufeiniaid i'r disgyblion tanlinellu'r berfau gorffennol a'r ansoddeiriau sydd ynddi

2- Taflen cymorth i helpu'r disgyblion creu'r daflen wybodaeth

Sawl berf orffennol ac ansoddair gallwch chi weld yn y paragraff yma?

Adeiladodd y Rhufeiniad llyfrgelloedd mawr a oedd yn dal llyfrau amrywiol. Roedd amffitheatrau hefyd yn bwysig i'r Rhufeiniaid. Gwyliodd y Rhufeiniad sioeau a brwydrau gladiatoriaid yn yr adeiladau enfawr a chrand yma. Gwisgodd y Rhufeiniaid cyfoethog gemwaith drud oedd yn dangos eu statws cymdeithasol. Yn ogystal, adeiladodd y Rhufeiniaid ffyrdd cryf, a oedd yn cysylltu'r holl Ymerodraeth.

Allwedd

Berfau'r gorffennol

Ansoddeiriau

Taflen cymorth

Y Gorffennol

Cofiwch ysgrifennu yn y gorffennol (wedi digwydd) e.e..
Adeilad**odd** y Rhufeiniaid....., Siarad**odd** y Rhufeiniad....
Roedd y Rhufeiniaid wedi.....

Ydych chi wedi cynnwys y canlynol ar eich taflen wybodaeth/

1. Esboniad o bryd wnaeth y Rhufeiniaid goresgyn
(cymryd dros) Prydain a phwy oedd yr ymerawdwr? ☐
2. Esboniad o ddiwydiant yn y cyfnod ☐
3. Disgrifiad o dai, trefi a dillad y Rhufeiniaid ☐
4. **Her** - Disgrifiad o beth wnaeth y Rhufeiniaid gadael ar ôl.
Gwaddol y Rhufeiniaid. ☐
5. Lluniau ☐
6. Ansoddeiriau ☐

Enghreifftiau o ansoddeiriau gallwch chi gynnwys:

cryf	mawr	cyfoethog	pwysig
coch	porffor	crwn	syth

Geirfa allweddol

goresgyn (cymryd dros)
ymerodraeth (Grŵp o wledydd sydd yn cael ei rheoli gan un person neu lywodraeth) – Empire
ymerawdwr – (Y person sy'n rheoli'r Ymerodraeth) – Emperor
cloddio – Tynnu pridd neu ddeunyddiau eraill o'r ddaear
Rhufeiniaid – pobl o'r Ymerodraeth Rufeinig
amffitheatr – adeilad crwn lle byddai pobl yn mynd i wyllo digwyddiadau fel brwydrau gladiator.

Gwerthusiad o'r wers

Gwerthusiad personol o'r wers

Beth aeth yn dda

- Fe wnes i drilio berfau'r gorffennol gyda'r disgyblion. Cyfeiria Estyn (2024) at ysgol sydd wedi rhoi cynllun drilio iaith ar waith ar hyd yr ysgol. Mae hwn yn arfer da yn ôl Estyn (2024) gan fod hwn wedi gwella geirfa a chystrawennau'r plant
- Cafodd y disgyblion cyfle i ddarhod mewn parau trwy gyfrwng y Gymraeg. Defnyddiais lun o amffitheatr fel sbardun a gofynnais i'r disgyblion drafod beth oedden nhw'n meddwl oedd yn digwydd mewn amffitheatr yn y cyfnod.
- Fe wnaeth y gêm dis rhoi cyfle i ddisgyblion ymarfer defnyddio berfau'r gorffennol yn gywir. Fe wnaeth y disgyblion ymgysylltu gyda'r dasg yma a'i mwyhau. Caiff hwn ei chefnogi gan Humaria (2019) sy'n dadlau bod gemau dis yn cynnal diddordeb ac ysgogi dysgwyr. Yn ogystal, pwysleisia Humaria (2019) gall chwarae gemau dis yn annog disgyblion i ailadrodd strwythur gramadegol penodol a'i defnyddio yn gywir.
- Ymatebodd y disgyblion yn dda i'r dasg anodi lle'r oedd angen iddynt ddarllen testun a thanlinellu'r berfau gorffennol ac ansoddeiriau oedd ynddi.
- Cwestiynu da trwy gydol y wers. er enghraifft beth yw ansoddair? Beth yn nodweddion taflen wybodaeth?
- Fe wnaeth y disgyblion cyfeirio yn ôl at y daflen cymorth yn gyson wrth ysgrifennu eu taflennu gwybodaeth.
- Esboniad da o beth yw ansoddair – 'mae ansoddeiriau fel arfer yn dilyn enw'

Gwell fyth os

- Gallaf fod wedi rhoi ychydig mwy o amser i'r disgyblion chwarae'r gêm dis a gofyn iddynt nodi o leiaf 4 brawddeg wahanol yn eu llyfrau yn defnyddio berfau gorffennol.
- O bosib gallaf fod wedi creu taflen wybodaeth enghreifftiol i'r disgyblion a darllen rhan o'r daflen wybodaeth iddynt. Pwysleisia Hurst a Griffity (2015) bod disgyblion yn gallu datblygu eu hynganiad o eiriau wrth wrando ar athro yn darllen yn uchel.
- Gallaf hefyd fod wedi dewis disgyblion ar hap i ddarllen y paragraff am y Rhufeiniaid yng Nghymru ac annog y disgyblion arall i ddilyn. Gall hwn datblygu rhuglder darllen disgyblion (Coleman 2017).

Llyfryddiaeth

Coleman, R. (2018). *Whole-class reading – choose your strategy carefully if you don't want to miss the mark*. Ar gael yn: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/news/eef-blog-whole-class-reading> (Cyrchwyd 13 Ebrill 2024)

Estyn. (2024). *Datblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwell/datblygu-medrau-llafar-cymraeg-disgyblion/> (cyrchwyd 13 Ebrill 2024)

Humaira, H., (2019). The Use of Dice Game in Teaching Vocabulary for Young Learners. *Linguistics and ELT Journal*, 5(1), tt.39-45.

Hurst, S. a Griffity, P. (2015). Examining the effect of teacher read-aloud on adolescent attitudes and learning. *Middle Grades Research Journal*, 10(1), tt.31-47.